

Targed 1	Parhau i gefnogi sylwadau gyda thystiolaeth academiaidd
Targed 2	Anelu at ddefnyddio mwy nag un ffynhonell mewn paragraff er mwyn gallu cymharu
Targed 3	Defnyddio berfau yn y presennol wrth gyfeirio at ffynhonell.

ECAD5007-C

Y Dysgwr: Pwy ydw i'n addysgu?

Cari Tinnuche

1811204

Nifer o eiriau: 4245

Tudalen cynnwys

Cyflwyniad	3 - 4
Dysgu a datblygiad	5 - 7
Cyd-destun y disgybl	8 - 9
Awtistiaeth	10
Ymyrraeth	11 - 13
Cynnydd	14 - 15
Diwedd glo.....	16
Cyfeiriadau	18 - 21
Atodiadau	22 - 23

Cyflwyniad

Ein prif cyfrifoldeb ni fel athrawon yw i sicrhau fod ein disgyblion yn ddysgwyr hapus, hyderus sy'n cyflawni eu potensial uchaf. Mae'r safon 'addysgeg' o'r 5 safon proffesiynol mae rhaid i ni dilyn fel athrawon yn dweud bod rhaid i ni fel athrawon:

"Sicrhau'n gyson y deilliannau gorau i ddysgwyr drwy fireinio dulliau addysgu'n raddol, dylanwadu ar ddysgwyr a hybu dysgu".

(Llywodraeth Cymru, 2019)

Fel athrawon, byddwn ni, ochr yn ochr gyda theulu'r dysgwr, yn ddylanwad mawr ym mywydau'r dysgwr. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau eu bod y dysgwyr yn gyffyrddus yn yr ystafell ddosbarth, a bod eu hanghenion yn cael ei diwallu. Mae'r erthygl tri o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 (UNICEF, 2021) yn dweud bod rhaid i bawb sydd yn gweithio gyda phlant sicrhau ei bod yn rhoi budd gorau'r plentyn yng nghanol yr hyn y maen nhw'n ei wneud.

Yn ôl Stats Cymru (2020a), yn y flwyddyn academiaidd 2019/2020, roedd 51,473 o blant mewn ysgolion cynradd dros Gymru, ag anghenion dysgu ychwanegol. Darganfuwyd bod tua 271,035 o blant mewn ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn academiaidd 2019/2020 (Stats Cymru, 2020b), felly mae plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cymryd rhan tua 15% o'r disgyblion cyffredinol. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod ni fel athrawon yn sicrhau ein bod ni'n gwneud ein gorau dros y myfyrwyr hyn, a sicrhau ein bod ni'n darparu'r gefnogaeth ac unrhyw cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt i gyrraedd eu potensial llawn; fel gwelir o'r Cwricwlwm i Gymru (2015), mae un o'r dibenion yn amlinellu bod un o'r sylfeini i'r dosbarth rhyngweithio oedd hybu "unigolion iach, hyderus", ac mae rhaid i ni fel athrawon rhoi amgylchedd dosbarth iddyn nhw sydd yn hybu hyn.

Yn ystod y traethawd yma, mi fyddaf yn sôn amdano fyfyrwr o'r enw Alys. Am resymau diogelwch a phreifatrwydd bydd enw go iawn y disgybl yng nghanol yr ymchwil hon yn cael ei ddal yn ôl, yn ogystal ag enw'r ysgol ac unrhyw nodweddion fyddai'r plentyn yn gallu cael ei

adnabod o. Fel dywed gan ganllaw 40 BERA (2018), rhaid i ni sicrhau ein bod yn parchu eu hawl i fod yn anhysbys trwy ddal yn ôl unrhyw wybodaeth allai arwain at adnabod yr unigolyn sydd yn cael eu trafod.

Fel gwelir o broffil un tudalen Alys (gwelir atodiad 1) Alys yw ferch ifanc ym mlwyddyn 4 mewn Ysgol Gynradd Afon Gadog ac yn naw mlwydd oed. Mae Alys wedi cael diagnosis o awtistiaeth, ac mae hefyd ganddi ADHD (attention deficit hyperactivity disorder). Effeithiwyd y ddau beth yma'n fawr ar amser Alys yn yr ystafell dosbarth.

Yr ymyrraeth rwyf wedi dewis yw clwb cerddoriaeth yn yr ysgol. Credaf y gallai clwb cerdd fod o fudd i'r plentyn yn fawr. Fel y gwelir yn y proffil, er bod gan Alys gwpl o feysydd i'w datblygu, er enghraifft gyda'i datblygiad corfforol, rwy'n teimlo y byddai targedu ei datblygu cymdeithasol hefyd o fudd i ddatblygiad emosiynol Alys, ac felly fydd y clwb cerddoriaeth yn cynorthwyo mwy nag un maes yn natblygiad Alys.

Mae cerddoriaeth, ar wahân i fod yn weithgaredd mwynhad, hefyd yn gallu fod yn ffordd o gyfathrebu ag eraill (Suthers, Niland. 2007. Tud 2-6) Yn nodweddiadol, mae plant yn fwy tebygol o chwarae gyda phlentyn eraill yn dilyn profiad cerddorol maen nhw wedi rhannu (Kirschner, Tomasello. 2010. Tud. 360), a gobeithiaf taw hyn fydd y sefyllfa gydag Alys. Gobeithiaf fyddai'r siawns i gymdeithasu yn y clwb cerddoriaeth yn hybu Alys i beidio ofni unigolion eraill yn y dosbarth.

Dysgu a datblygiad

Esbonia'r llyfr "How Children Learn" gan Stella Vosniadou (2001. Tud 9), mae dysgu yn weithgaredd cymdeithasol yn bennaf ac mae cymryd rhan ym mywyd cymdeithasol yr ysgol yn hanfodol er mwyn i ddysgu effeithiol digwydd. Sgiliau cymdeithasu yw un o'r meysydd mwyaf heriol i ddatblygu ag i gwrdd ag anghenion unigolion sydd ag awtistiaeth (Weiss, Harris, 2001. Tud 785), a dyma'r maes / sgil rwyf wedi penderfynu ffocysu arno mewn achos Alys.

Pwysleisia pwysigrwydd datblygiad cymdeithasol gan SCAN, sef sefydliad a gafodd ei greu i hyrwyddo lles plant yng ngogledd America. Dywed SCAN (2021) mae datblygiad cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol wrth effeithiol ar lawer o fathau eraill o ddatblygiad y mae plentyn yn wynebu. Mae SCAN hefyd yn uwcholeuo'r ffaith all datblygiad cymdeithasol iach helpu'ch plentyn i ddatblygu mewn meysydd eraill, gan gynnwys cryfhau sgiliau dysgu, datrys gwrthdaro, a datblygu sgiliau iaith.


Fel esbonnir gan Child Development Clinic (2019), un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol mae plant yn dysgu yw trwy fodelu o blant eraill. Dywed yr erthygl bod plentyn yn fwy tebygol o arsylwi a modelu'r rhai sy'n debyg iddyn nhw, er enghraifft yr un oedran neu'r un rhyw. Os oes gan blentyn ddiffyg hyder neu os ydynt yn anghyfarwydd â sefyllfa, maen nhw'n debygol o arsylwi eraill i ddeall beth i'w wneud. Cytuna damcaniaeth Lev Vygotsky gyda hyn: yn ôl Vygotsky, mae rhyngweithio cymdeithasol yn chwarae rhan allweddol yn y proses o ddatblygu sgiliau eraill plentyn. Teimlai Vygotsky fod dysgu cymdeithasol yn rhagflaenu datblygiad (Learning Theories, 2021).

Mae damcaniaeth Vygotsky yn rhannu'r cysyniad o ddau brif beth, sef y Parth Datblygiad Procsimol a'r syniad o 'person mwy gwybodus'. Fel dwedodd Vygotsky:

"Mae dysgu'n deffro amrywiaeth o brosesau datblygu mewnol sy'n gallu gweithredu, dim ond pan fydd y plentyn yn rhyngweithio â phobl yn ei amgylchedd ac mewn cydweithrediad â chyfoedion"

(Vygotsky, 1978. Tud. 212)

Mae'r cysyniad yn ffocysu ar y pwysigrwydd o 'person mwy gwybodus' a sut gallant nhw chwarae rhan fawr mewn gwella dysgu myfyriwr. Awgrymir y cysyniad bod y person mwy gwybodus yn gallu gwella dysgu myfyriwr arall yn y dosbarth trwy helpu'r myfyriwr trwy dasg sydd ychydig uwchlaw eu lefel gallu. Wrth i'r myfyriwr datblygu a dod yn fwy cymwys, mae'r person mwy gwybodus yn stopio yn raddol helpu nes bod y myfyriwr yn gallu gwneud y sgil yn annibynnol. Mae'r llun isod yn egluro'r syniad craidd tu ôl i'r cysyniad o Barth Datblygiad Procsimol:



Llun yn egluro'r syniad craidd tu ôl i'r syniad o Parth Datblygiad Procsimol (Healthline, 2021).

Roedd gan Vygotsky mwy o ddiddordeb yn y broses mae plant yn mynd trwyddo i wneud cynnydd mewn gwaith yn lle'r cynnyrch terfynol. Er enghraifft, yn fy ymyrraeth (clwb cerdd) nid y cynnyrch terfynol sy'n bwysig, neu'r gerddoriaeth mae Alys yn creu, ond y ffocws yw'r sgiliau mae hi'n datblygu yw'r hyn sy'n wirioneddol bwysig o'r ymyrraeth.

Er bod theori Vygotsky yn cael ei defnyddio ar gyfer datblygiad gwybyddol yn bennaf, gellir defnyddio'r theori ar gyfer datblygiad cymdeithasol yn ogystal â datblygu sgiliau gwybyddol. Dyma un theori y byddaf yn ei rhoi ar waith yn ystod fy ymyrraeth mewn clwb cerdd. Ar broffil

disgybl Alys mae'n nodi nad yw hi'n dda iawn am ddilyn cyfarwyddiadau penodol, ac yn gallu ymateb yn eithaf rhwystredig, ond gobeithiaf pan fydd hi'n gweld aelodau eraill y clwb cerdd yn chwarae offerynnau y bydd hi'n gallu modelu hyn oddi arnyn nhw, yn lle gorfod rhoi cyfarwyddiadau sbesiffig iddi hi. Bydd hyn yn rhoi elfen o ryddid creadigol i Alys, gan feithrin ei chariad at gerddoriaeth a chreadigrwydd, yn ogystal â chysylltiadau traws cwricwlwm, sydd wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru 2022 (2015).

Mae damcaniaeth Jerome Bruner yn awgrymu'r proses o 'sgaffaldiau', sydd yn cynnwys plentyn 'mwy gwybodus' yn tywys myfyriwr trwy dasg sydd mewn ei Pharth Datblygiad Procsimol. Roedd Bruner wedi cael ei ddylanwadu gan ddamcaniaeth Vygotsky, a chreodd cysyniad yma o scaffoldio. Tra bod Vygotsky wedi cael ei feirniadu am beidio â darparu tystiolaeth ar gyfer ei gysyniad o ZPD, mae Bruner wedi darparu tystiolaeth ar gyfer y cysyniad o sgaffaldau (Thomas, 2018). Wood, Bruner a Ross (1976. Tud 89-100) oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term yma o 'scaffaldio' fel trosiad yn y cyd-destun dysgu. Fe wnaethant ddefnyddio'r term i ddisgrifio natur tiwtora rhieni yn natblygiad iaith plant ifanc (Joyce, Burns. 2005. Tud 9) Gall hyn fod mewn ystod eang o ffyrdd, er enghraifft trwy fodelu, trwy roi esiamplau, gweithio un ar un neu defnyddio cymhorthion gweledol (Healthline, 2021).

Cyd-destun y disgybl

Dywed Erthygl 29 o'r Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP) 1989 (UNICEF, 2021) y dylai "addysg plentyn neu berson ifanc helpu ei feddwl, ei gorff a'i ddoniau i fod y gorau y gallant". Dylai'r addysg a'r gefnogaeth y mae Alys yn eu derbyn cael ei budd gorau a'i datblygiad wrth ei wraidd, ac mae hyn yn golygu addasu'r hyn y mae ei chyfoedion yn ei dysgu er mwyn sicrhau ei fod yn gweddu i Alys a'i anghenion dysgu, heb ei gwneud hi'n anghyfforddus neu'n anhapus.

Fel gwelir yn broffil disgybl Alys, mae gan Alys awtistiaeth. Gan amlaf, mae unigolion sydd ag awtistiaeth yn gweld hi'n anodd rhyngweithio ag eraill, cychwyn sgysiau, ymateb i eraill neu ddefnyddio rhyngweithio i ddangos pethau i bobl/i fod yn gymdeithasol (National Autistic Society, 2021), ac mae hyn yn wir yn sefyllfa Alys.

Wrth edrych ar broffil Alys [atodiad 1], gellir gweld bod Alys yn cael anhawster cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda disgyblion arall. Ers i frawd Alys gadael am Ysgol Uwchradd y flwyddyn flaenorol, mae Alys yn chwarae ar ben ei hun amser cinio, ac yn cael hi'n anodd mynd at aelodau eraill o'r dosbarth i ddod yn ffrindiau. Mae'r gwefan 'Autism Help' (2021) yn pwysleisio pwysigrwydd newid amgylchedd corfforol neu gymdeithasol y plentyn i annog rhyngweithio cymdeithasol cadarnhaol - enghraifft o hyn yw gosod y plentyn mewn gweithgareddau dan oruchwyliaeth fel gofal ar ôl ysgol, gofal gwylio neu glybiau. Mae hyn yn hynod o ddefnyddiol os yw'r gweithgaredd yn canolbwyntio ar ddiddordeb y plentyn.

Yn ôl 'Child Development Institute' (2021), dylai plant 6-9 oed mwynhau chwarae a chydweithio gydag eraill. Fel gwelir o broffil Alys, dydy Alys ddim yn hoffi neu yn cymdeithasu gydag aelodau arall yn y dosbarth. Gellir gweld o gamau datblygu'r 'American Psychological Association', (2021) mae plant 8-9 yn gallu cyfathrebu'n well ac yn hirach gydag eraill, ac yn gallu mynegi eu hunain a deall pethau. Mae hyn yn dangos i ni fod Alys ychydig tu ôl gyda'i datblygiad cymdeithasol; darganfyddais o'r erthygl 'Autism Spectrum Disorders in Young Children' (Pedraza, Carter. 2011), mae rhan fwyaf o blant awtistig yn cyrraedd rhai o'u camau datblygiadol ar amser neu'n gynnar, ond yn cyrraedd eraill yn hwyr neu ddim o gwbl. Ar hyn o bryd, yn ôl y camau datblygiad amlinellwyd yn y llyfr "Play, learning and development"

(Tassoni et al., 2016. Tud 15) , mae datblygiad Alys ar gamau dylai plant 6-7 oed bod arni [gweler atodiad 2], ond gobeithio gyda chefnogaeth athrawon a'r ymyrraeth i'w helpu, fydd Alys yn cwrdd â'r camau datblygiad dylai hi fod.

Fel y mae hyn yn dweud wrthym, weithiau gall plant awtistig fod ar y blaen i rai o'u camau datblygu, hyd yn oed os ydyn nhw yn cwmpo tu ôl mewn ardaloedd eraill. Er enghraifft, os edrychwn ni ar broffil Alys [atodiad 1], mae Alys ar y blaen gyda'i datblygiad corfforol. Mae rhai o gamau datblygiad Alys cyn ei hoedran, er enghraifft, mae ganddi sgiliau echddygol rhagorol, ac yn gallu reidio beic, sydd yn dod o dan gamau datblygiad plentyn 10 mlwydd oed (Mott Children's Hospital, 2021).

Awtistiaeth

Mae anhwylder sbectrwm awtistig, neu awtistiaeth fel y byddaf yn cyfeirio ato yn ystod y traethawd hwn, yn anabledd datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar sut mae pobl yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'r byd (National Autistic Society, 2021). Gan amlaf, mae unigolion sydd yn awtistig yn gweld hi'n anodd cyfathrebu a rhyngweithio gyda phobl eraill, gweld hi'n anodd deall sut mae pobl arall yn meddwl neu yn teimlo, ac yn gallu mynd yn bryderus neu'n nerfus am sefyllfaoedd anghyfarwydd (NHS, 2019). Dydy awtistiaeth ddim yn meddwl bod gan unigolyn salwch, mae'n meddwl bod eu hymennydd yn gweithio ac yn prosesu pethau mewn ffordd wahanol. Nodweddir awtistiaeth gan nifer o nodweddion, gan gynnwys amhariad ar rhyngweithio cymdeithas ac amhariad ar gyfathrebu cilyddol (Hackett, 2003).

Dywed gan Meng-Chuan Lai et al., (2014. Tud 13-16) yn y cyfnodolyn academiaidd "Autism", gall ymyriadau cynhwysfawr a thargededig cynnar wella cyfathrebu cymdeithasol a lleihau pryder ac ymddygiad ymosodol. Gellir mynd i'r afael â diffygion cymdeithasoli yn unigol neu mewn lleoliadau grwpiau bach, fel bydd yn cael ei chynnal yn y clwb cerddoriaeth. Gall strategaethau ymddygiad a hyfforddiant sgiliau ddysgu sgiliau cymdeithasol, gwella rhyngweithio cyfoedion a hyrwyddo sgiliau chwarae (Levy et al., 2009. Tud 10) .

Mae hanes hir o ddefnyddio gwasanaethau therapi cerdd / cerddoriaeth i helpu unigolion ag awtistiaeth i gyflawni nodau sydd ddim yn ymwneud ag awtistiaeth, gan gynnwys sgiliau cymdeithasol (Reschke-Hernandez, 2011. Tud 230). Edrychais i mewn i nifer o wahanol ymyraethau efallai fyddai'n gweithio ar gyfer Alys, a therapi cerddoriaeth oedd un wnaeth sefyll mas i mi. Fel mae'r proffil disgybl yn nodi, mae Alys yn mwynhau chwarae'r iPad, ac yn gallu gwneud hyn yn annibynnol. Yn benodol, mae hi'n mwynhau gwyllo perfformiadau cerdd a dawnio. Un o'r prif symptomau awtistiaeth yw ymddygiadau ailadroddus a diddordebau cyfyngedig (Anthony et al., 2015), felly mae'n bwysig ein bod ni'n defnyddio'r diddordebau sydd gan Alys fel mantais i'w helpu i fwynhau dysgu.

Amlinellwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) yn y llyfryn 'Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru' bod rhaid i ysgolion a ni fel addysgwyr, creu cwricwlwm sydd yn: cwrdd ag anghenion dysgwyr, yn gynhwysol ac yn darparu cyfle cyfartal, yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy i ddysgwyr, ac sydd yn berthnasol, yn heriol, diddorol ac yn bleserus i'r dysgwr. Ar hyn o bryd, nid yw Alys yn cael yr holl wybodaeth o'r wers fel y dylai fod yn ei chael, oherwydd nid yw'n hoffi'r ffordd y rhoddir y gwaith iddi, a byddai'n well ganddi eistedd ar ei phen ei hun yng nghefn y dosbarth yn gwylio fideos. Mae'r cyfrifoldeb arnom ni, y bobl sy'n gyfrifol am ddysgu Alys, i sicrhau ei bod yn cael y gorau o'i hamser yn y dosbarth, ac i feithrin mwynhad ar gyfer dysgu.

Ymyrraeth

Fel dywed gan Schellenberg et al (2015), gall rhyngweithio cerddorol ar y cyd wella empathi emosiynol, 'prosociality' a bondio mewn plant, eto fyddai hyn yn helpu Alys i greu ffrindiau o fewn y dosbarth ac i helpu hi teimlo'n llai unig neu i hybu perthynas rhyngddi hi ac unigolion yn y dosbarth. Credaf wrth i Alys dod yn fwy cyfforddus gyda'r dysgwyr eraill yn y dosbarth, fydd hi hefyd mwy parod i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r dosbarth, ac felly fyddai hyn yn cael effaith da a phositif ar ardaloedd datblygu eraill Alys.

Fel esboniais uchod, yr ymyrraeth rwyf wedi dewis yw clwb cerddoriaeth. Fy mwriad gyda'r clwb cerddoriaeth yw annog y myfyrwyr i weithio gyda'i gilydd, i ddysgu mwy am wahanol offerynnau, a hefyd i feithrin amgylchedd clos. Fy mwriad yw bod y clwb yn rhedeg ar ôl ysgol, a gall gwahanol aelodau o staff ei redeg, ond fy mwriad yw sicrhau bod naill ai'r athro dosbarth neu'r cynorthwydd mewn pob sesiwn er mwyn sicrhau fod Alys yn cael rhywun cyfarwydd yno i'w chefnogi. Mae cerddoriaeth wedi cael ei phrofi i gael nifer fawr o fanteision: un o rain yw twf ymennydd; mae astudiaethau niwrowyddoniaeth wedi profi bod gweithgareddau cerddorol, fel chwarae offeryn, canu neu hyd yn oed gwranddo ar gerddoriaeth yn gallu ysgogi'r ymennydd (Learning Potensial, 2021). Mae cerddoriaeth hefyd yn gallu cefnogi sgiliau echddygol manwl plant a chydsymud dwylo (Austin Children's Academy, 2021).

Mae enghraifft wych o'r buddion mae addysg cerddoriaeth wedi'u cael ar ysgol i'w gweld yn erthygl gan 'The Guardian' (2007), lle mae'r pennaeth wedi gwreiddio addysg celf, drama a cherddoriaeth i mewn i bob rhan o'r diwrnod ysgol. Heddiw mae'r ysgol yn y top 10% yn genedlaethol ac ar ben y mynydd pryd gyda'i phwyntiau am wahanol bynciau. Mae'r ysgol wedi ffocysu ei weledigaeth ar 'The Kodály Method'. Cafodd y dull yma ei chreu gan gyfansoddwr, Zoltán Kodály, ac mae'r dull yn cyfuno nifer o wahanol dechnegau. Mae'r dull yn ffocysu arno ddewis technegau y canfyddir eu bod y mwyaf rhyngweithiol a gafaelgar, er mwyn creu dull oedd yn canolbwyntio ar sgiliau mynegiadol a chreadigol (British Kodály Academy, 2021). Mae'r dull yma wedi dangos pa mor bwysig a syfrdanol mae addysg cerddoriaeth i blant, enwedig plant sydd ag anghenion ychwanegol.

Yn debyg i glybiau cerddoriaeth sydd yn rhedeg yn barod, er enghraifft clwb cerddoriaeth 'St Pauls Primary School' (2020), mi fydd y sesiynau clwb cerddoriaeth yn adeiladu ar nifer o sgiliau gwahanol, trwy weithgareddau fel gemau canu, defnyddio gwahanol offerynnau, pwls a rhythm, a dawnsio. Fydd gweithgareddau'r clwb cerddoriaeth nid yn unig yn helpu Alys a'r disgyblion sydd yn mynychu i wella arno ei sgiliau cerddoriaeth mewn amgylchedd cyfeillgar a chynhwysol, ond fydd y gweithgareddau hefyd yn cael cysylltiadau trawsgwricwlaidd. Ers plentyndod cynnar, mae plant yn dysgu rhifau, gwybodaeth, ac ati trwy ailadrodd mewn cân (Cyngor Gaerloyw, 2021), a fydd hyn hefyd yn cael ei weithredu yn ystod y gwersi cerddoriaeth hefyd. Mi fydd y gweithgareddau hefyd yn draws-gwricwlwm trwy, er enghraifft, ganu chwarae neu chwarae offerynnau o wledydd eraill, a fydd hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwyr i ddysgu ac archwilio i mewn i ddiwylliannau eraill. Fel dywed gan Murphey (1990. Tud 20-33), mae cerddoriaeth yn rhoi ffenest i ni i neidio mewn i ddiwylliannau eraill i ddarganfod sut mae'r rheini yn byw.

Gobeithiaf fydd clwb cerddoriaeth nid yn unig yn helpu datblygu sgiliau cymdeithasol Alys, ond hefyd ei sgiliau emosiynol hefyd. Darganfyddodd Ritblatt et al. (2013), fod 55 o blant mewn ysgol gynradd fu cymryd rhan mewn ymyrraeth gerddorol wedi datblygu newid positif yn ei sgiliau emosiynol a cymdeithasol, i gymharu â 50 o blant nad oedd yn rhan o'r ymyrraeth. Dangosodd proffil Alys i ni mae hi'n cynhyrfu'n arbennig pan fydd hi'n dod i ysgol yn y bore. Rwy'n gobeithio, trwy wneud yr ysgol yn fwy o hwyl a defnyddio ei diddordebau, bydd Alys yn ystyried ysgol fel profiad positif.

Credaf fydd clwb cerddoriaeth o fudd mawr i Alys, ond dydy hwnna ddim yn meddwl fod yr ymyrraeth ddim yn dod gydag unrhyw rwystrau. Un ymyrraeth ystyriaais cyn clwb cerddoriaeth oedd y syniad o therapi miwsig, sydd â mwy o dystiolaeth o fod yn llwyddiannus i blant sydd ag awtistiaeth, fel yn astudiaeth 'Social outcomes in children with autism spectrum disorder: a review of music therapy outcomes' gan LaGasse (2017), sydd yn dadlau bod ymyrraethau therapi miwsig yn llwyddiannus ar gyfer gwella rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu, ymddygiad a dwyochredd cymdeithas-emosynol. Ond, mae therapi cerdd yn ddrud, ac mae hyn hefyd yn anfantais i glwb cerddoriaeth. Mae dechrau clwb cerddoriaeth yn gallu bod yn rhywbeth eithaf drud, er enghraifft pris o brynu offerynnau. Un ffordd i ddod o amgylch hyn

yw defnyddio offerynnau mae gan yr ysgol yn barod nes bod modd i wneud cais am gyllid ar gyfer yr ymyrraeth.

Problem arall allai codi yw'r broblem o staffio'r clwb. Byddai'r clwb yn golygu bod staff yn ildio awr ychwanegol o'i amser ar ôl y diwrnod ysgol i sicrhau bod oedolion addas yn goruchwyllo'r clwb, a gallai hyn fod yn ormod i staff sydd wedi bod yn gweithio ers cynnar yn y bore. Anfantais arall yw bod effaith yr ymyrraeth yn araf, nid newid cyflym (Harmony Music Therapy, 2019), a gallai hyn beri digalon i rieni, gan feddwl nad yw'r clwb yn gweithio ac yn helpu datblygiad Alys.

Mae erthygl gan ESTYN yn trafod manteision o ddefnyddio cerddoriaeth i ddatblygu addysg disgyblion, ac yn dweud bod cerddoriaeth wedi hybu ei "lles, gwaith tîm a gwytnwch" (ESTYN, 2018). Mae'r pwyslais ar gerddoriaeth wedi helpu'r plant mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, darganfyddodd ESTYN fod sgiliau llythrennedd y plant hefyd wedi gwella trwy gerddoriaeth. Mae hyn yn dangos i ni fod cerddoriaeth yn cael effaith positif ar addysg plant, a gobeithiaf hwnna fydd yr achos gydag Alys hefyd.

Gobeithiaf fydd y clwb cerddoriaeth yn cael ei redeg ar ôl ysgol er mwyn osgoi plant yn gorfod treulio eu hamser cinio y tu mewn, ond os nad yw clwb ar ôl ysgol yn bosibl, mae lle i'w wneud yn glwb amser cinio yn lle, ac efallai fyddai hyn yn helpu osgoi'r broblem o staffio clwb ar ôl ysgol. Heblaw am hynny, nid oes llawer o gobygliadau ar gyfer yr holl ysgol wrth redeg clwb cerddoriaeth. Os mae'r clwb yn llwyddiannus, syniad o bosib yw ymestyn y clwb mas i fod yn glwb sydd ar gael i'r ysgol gyfan: efallai i unigolion sydd angen datblygu ei sgiliau cyfathrebu ychydig mwy, neu hyd yn oed ond i unigolion sydd yn mwynhau cerddoriaeth.

Cynnydd mewn dysgu

Mae goblygiadau ni fel staff i sicrhau ein bod ni'n cefnogi cynnydd mewn dysgu myfyrwyr ein dosbarth ni. Fel esbonnir gan Lywodraeth Cymru (2020), mae rhaid i'r ysgolion creu gweledigaeth, ac ystyried "beth y dylem ei ddysgu a pham? Sut y dylem ei ddysgu? Sut y bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben?". Mae cynnydd mewn dysgu yn broses sydd yn digwydd dros amser wrth i feddwl y dysgwr datblygu dros amser i lefelau newydd, mwy anodd. el awgrymir gan Lywodraeth Cymru, mae dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cynnydd dysgu cwbl unigryw i'r unigolyn.

Mae pum egwyddor cynnydd, sef: "ehangder a dyfnder gwybodaeth gynyddol, dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y meysydd, mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau, creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd, a chynyddu effeithiolrwydd". Mae'r egwyddorion cynnydd yma yn rhoi cyfle i ddysgwyr i gael cynnydd academiaidd, ac mae hyn i fod wrth wraidd y penderfyniadau sy'n ymwneud â chwricwlwm a threfniadau asesu ysgolion Cymru, er mwyn sicrhau fod disgyblion yr ysgol yn cwrdd â phedwar diben y Cwricwlwm. Mae cynnydd mewn dysgu yn broses dros ystod eang o amser rhwng oedrannau 3 i 16 (Llywodraeth Cymru, 2020). Chwaraeir asesu rôl allweddol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd dysgu mewn cyflymder addas a personol gyda chefnogaeth yr athro neu athrawes.

Mi fyddaf yn asesu cynnydd sgiliau cymdeithasol Alys mewn cwpl o wahanol ffyrdd, ond un o'r ffyrdd amlycaf o asesu yw trwy arsylwi Alys. Gwneir arsylwad, naill ai o gynorthwyydd Alys neu gan yr athro, cyn i'r clwb cerddoriaeth dechrau ac yna yn rheolaidd pob 4 wythnos. Mi fydd hyn yn rhoi cyfle i'r athro neu athrawes penderfynu a fu cynnydd gyda datblygiad cymdeithasol, neu addasu'r clwb os nad yw Alys yn cael popeth mas o'r clwb dylai hi fod yn cael, fel os mae'r clwb yn cael mwy o effaith gwael ar Alys yn lle effaith positif. Mae arsylwi hefyd yn gallu rhoi dealltwriaeth wybodus o lefel cymhwysedd cyfredol plant ac yn rhoi cyfle i athrawon myfyrio ar briodoldeb y ddarpariaeth (Wall, 2011. Tud 86).

Dylai asesu'r dysgu fod yn hylaw ac yn ymarferol, gyda thystiolaeth, a dylid ei ystyried yn broses barhaus (Teach Early Years, 2021). Fel dwedais uchod, ni ddylen ni disgwyl unrhyw newidiadau cyflym neu fawr yn ymddygiad Alys, bydd y broses yn un raddol. Y cam cynnydd nesaf ar ôl cyflwyno Alys i'r clwb cerddoriaeth yw anogaeth dyner, er enghraifft, changhennu i rannu offerynnau, neu greu cân fel grŵp yn y clwb, nes i ni weld digon o newid naturiol i'w sgiliau cymdeithasol i ddechrau ailgyflwyno gwaith tîm neu grŵp yn y dosbarth.

Diwedd glo

Fel yr wyf wedi egluro ac wedi astudio yn ystod y gwaith hwn, mae awtistiaeth yn rhywbeth mae gennym ni fel athrawon gyfrifoldeb i sicrhau bod gan yr unigolyn ddigon o gefnogaeth i ddelio â, gan gynnwys unrhyw ymyraethau sydd angen arnynt i sicrhau bod y plentyn yn symud ymlaen i'r camau datblygiad y dylent fod.

Un cam dilyniant posibl ar gyfer y dyfodol, os yw'n effeithiol gyda helpu datblygiad cymdeithasol Alys, yw defnyddio'r ymyrraeth hon ledled yr ysgol: rhestrodd adroddiad OFSTED (2011. Tud 68-71) buddion o weithredu rhaglenni cerdd ledled yr ysgol. Mae'r adrodd yn sôn am arfer da, gan gynnwys cynnwys disgyblion o wahanol grwpiau a gwahanol anghenion. Os mae'r clwb yn llwyddiannus, syniad arall o bosib yw cynnwys rhieni yn y clybiau cerddoriaeth ar ôl ysgol; mae cyfranogiad rhieni yn dysgu eu plant nid yn unig yn gwella morâl, agwedd a chyfiawnhad academiaidd plentyn ar draws pob maes pwnc, ond mae hefyd yn hyrwyddo gwell ymddygiad ac addasiad cymdeithasol (Olsen, 2010).

Nid oes unrhyw hyfforddiant sydd angen arno staff yr ysgol er mwyn rhedeg y clwb cerddoriaeth, sydd yn fantais fawr i'r clwb. Fy mwriad gyda'r ymyrraeth hon, gobeithio, yw y gellir cymhwyso'r syniad at fuddiannau eraill, er enghraifft gallai'r ysgol edrych ar ddechrau clwb coginio neu glwb gemau os yw hyn yn rhywbeth mae gan ddysgwyr yr ysgol diddordeb mewn. Os nad yw'r ymyrraeth hon yn llwyddiannus i Alys, y cam dilyniant nesaf o bosibl yw ceisio am gyllid ar gyfer therapi cerdd fel archwiliais ymhellach lan. Fodd bynnag, mae therapi cerdd yn ddrud iawn ac yn gofyn am lawer o hyfforddiant a phobl sy'n arbenigo ynddo. Felly, credaf mai'r clwb cerdd yw'r cam cyntaf cyn i ni fynd i lawr y llwybr o ymyraethau mwy drud, ond gobeithiaf ni fydd angen iddo ddod at hynny, a fydd y clwb cerdd hwnnw mor effeithiol ag y gobeithiaf fydd e yn helpu Alys dod yn fwy cyfforddus a hapus yn ysgol.

Wedi'r cyfan, y peth pwysicaf yw bod Alys yn hapus, yn cael cefnogaeth, ac yn cael yr help angenrheidiol sydd ei angen arni i fod y gorau o'i gallu.

Cyfeirnod

American Psychological Association (2021) *Cognitive and Social Skills to expect from 6-10 years*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.apa.org/act/resources/fact-sheets/development-10-yearS> (Darllenwyd 14 Chwefror 2021)

Anthony, L. G., Kenworthy, L., Yerys, B. E., Jankowski, K. F., James, J. D., Harms, M. B., Martin, A., & Wallace, G. L. (2013). Interests in high-functioning autism are more intense, interfering, and idiosyncratic than those in neurotypical development. *Development and psychopathology*, 25(3), 643–652. <https://doi.org/10.1017/S0954579413000072>

Austin Children's Academy (2017) *Benefits of Music Education*. [ar-lein] ar gael yn: <https://austinchildrensacademy.org/the-montessori-benefits/music-education-early-childhood/> (darllenwyd 14 Chwefror 2021)

Autism Help (2021) *Helping your child to make friends*. [ar-lein] ar gael yn: <http://www.autism-help.org/communication-autism-making-friends.htm> (Darllenwyd 14 Chwefror 2021)

British Educational Research Association [BERA] (2018) 'Ethical Guidelines for Educational Research' BERA, Llundain. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online#privacy>. (Darllenwyd 1 Ionawr 2021)

British Kodály Academy (2021) *Kodály Approach*. [ar-lein] ar gael yn: <https://kodaly.org.uk/about-us/kodaly-approach/> (darllenwyd 14 Chwefror 2021)

BURNS, A., & DE SILVA JOYCE, H. (2005). *Teachers' voices 8: explicitly supporting reading and writing in the classroom*. Sydney. Macquarie University.

Child Development Clinic (2019) *Behavioural modelling and observational learning*. [Ar-lein] ar gael yn: <https://www.childdevelopmentclinic.com.au/behavioural-modelling.html> (Darllenwyd 15 Chwefror 2021).

Child Development Institute (2021) *Social and emotional development in Children & Adolescents*. [ar-lein] ar gael yn: <https://childdevelopmentinfo.com/child-development/social-emotional-development-in-children-and-adolescents/#gs.tul448> (darllenwyd 14 Chwefror 2021)

Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus. Hawlfraint y Goron. Caerdydd. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf>

ESTYN (2018) *Effective practice: The sound of success*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/sound-success-using-music-develop-literacy-skills> (darllenwyd 13 Chwefror 2021)

Hackett, L. (2003) A multidisciplinary Handbook of Child and adolescent Mental Health for Front-line professionals: Nisha Dogra, Andrew Parkin, Fiona Gale and Clay Frake. *Psychiatric Bulletin*. (27) 318-319.

Harmony Music Therapy (2019) *Outcomes, benefits and drawbacks of Music therapy with SND children*. [ar-lein] ar gael yn: <https://harmonymusictherapy.com/outcomes-benefits-and-drawbacks-of-music-therapy-special-needs-children/> (darllenwyd 13 Chwefror 2021)

Health Line (2021) *Zone of proximal development*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.healthline.com/health/zone-of-proximal-development#scaffolding> (Darllenwyd 14 Chwefror 2021) (llun)

Gloucestershire County Council (2021) *Cross curricular links through singing*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.gloucestershire.gov.uk/media/1518009/cross-curricular-links-through-singing.pdf> (Darllenwyd Chwefror 13 2021).

Kirschner, S., & Tomasello, M. (2010). Joint music making promotes prosocial behavior in 4-year-old children. *Evolution and Human Behavior*, 31(5), 354–364. <https://doi.org/10.1016/j.evolhumbehav.2010.04.004>

LaGasse A. B. (2017). Social outcomes in children with autism spectrum disorder: a review of music therapy outcomes. *Patient related outcome measures*, 8, 23–32. <https://doi.org/10.2147/PROM.S106267>

LAI, M., LOMBARDO, M.V. and BARON-COHEN, S., 2014. Autism. *The Lancet*, **383**(9920), tud. 896-910.

Learning Potential (2021) *Musical Benefits*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.learningpotential.gov.au/articles/musical-benefits> (darllenwyd 13 Chwefror 2021)

Learning Theories (2021) *Social Development Theory*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.learning-theories.com/vygotskys-social-learning-theory.html> (Darllenwyd 14 Chwefror 2021)

Levy, Susan E, Prof, Mandell, David S, ScD & Schultz, Robert T, Prof, 2009. Autism. *The Lancet* (British edition), 374(9701), tud. 1–22.

Llywodraeth Cymru (2020) *Datblygu gweledigaeth ar gyfer dylunio cwricwlwm*. [ar-lein] ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-dylunio-cwricwlwm/#progression> (Darllenwyd 18 Chwefror 2021).

Llywodraeth Cymru (2020) *Supporting learner progression: assessment guidance*. [ar-lein] ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/supporting-learner-progression-assessment-guidance> (Darllenwyd 17 Chwefror 2021)

Llywodraeth Cymru. (2019) Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Hawlfraint y coron. Caerdydd. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/ae783486-0851-4ec6-9e73-2e2b99515cf5/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2008) *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Martínez-Pedraza, F., & Carter, A. S. (2009). Autism spectrum disorders in young children. *Child and adolescent psychiatric clinics of North America*, 18(3), 645–663. <https://doi.org/10.1016/j.chc.2009.02.002>

MOTT Children's Hospital (2021) *Milestones*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.mottchildren.org/health-library/ue5722> (darllenwyd 14 Chwefror 2021)

Murphey, T. (1990). *Song and music in language learning*. Pieterlen, Switzerland: Peter Lang.

National Autistic Society (2021) *Understanding and developing communication*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/communication/understanding-and-developing-communication>

National Autistic Society (2021) *what is autism?* [ar-lein] ar gael yn: <https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/what-is-autism> (darllenwyd 14 Chwefror 2021).

NHS (2019) *What is autism?* [Ar-lein] ar gael yn: <https://www.nhs.uk/conditions/autism/what-is-autism/> (darllenwyd 14 Chwefror 2021)

OFSTED (2011) *Music in schools*. Manchester: England: OFSTED. ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/413347/Music_in_schools_wider_still__and_wider.pdf

Ritblatt S., Longstreth S., Hokoda A., Cannon B. N., Weston J. (2013). Can music enhance school-readiness socioemotional skills? *J. Res. Childhood Educ.* 27, 257–266. 10.1080/02568543.2013.796333

SCAN (2021) *Social Development*. [AR-LEIN] Ar gael yn: <https://www.scanva.org/support-for-parents/parent-resource-center-2/social-development-in-children/> (Darllenwyd Chwefror 15 2021)

Schellenberg EG, Corrigall KA, Dys SP, Malti T (2015) Group Music Training and Children's Prosocial Skills. *PLoS ONE*. 10(10) . e0141449. <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0141449>

St Pauls Primary School. (2021) *music club*. [Ar-lein] ar gael yn: <https://www.stpauls.cambs.sch.uk/music-club/> (darllenwyd 14 Chwefror 2021).

Stats.Cymru (2020a) *Number of pupils in primary, middle and secondary school classes by local authority and Key Stage*. [ar-lein] ar gael ar <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Classes/pupilsclasses-by-localauthority-keystage> [Darllenwyd 17 Chwefror 2021]

Stats.Cymru (2020b) *Reports of Special Educational Needs by sectors*. [ar-lein] ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/reportsofspecialeducationalneeds-by-sector-typeofneed> [Darllenwyd 16 Chwefror 2021]

Suthers, L & Niland, A (2007, An Exploration of young children's engagement with music experiences. *Listen to their voices: research and practice in early childhood music*. Research to practice. Canadian Music Educator's Association. Ontario. pp. 19-32. in K Smithrim & R UpitiS.

Tassoni, P., Baker, B., Burnham, L. and Hucker, K. (2016) *BTEC nationals children's play, learning and development : for the 2016 specifications*. Harlow: Pearson Education.

Teach Early Years (2021) *SEN: monitoring Children's progress*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.teachearlyyears.com/a-unique-child/view/sen-monitoring-childrens-progress> (darllenwyd 15 Chwefror 2021)

The Guardian (2017) *How to improve the school results: not extra maths but music, loads of it*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.theguardian.com/education/2017/oct/03/school-results-music-bradford> (darllenwyd 13 Chwefror 2021)

Thomas, A. (2018) *Exploring the role of schemas within the Welsh Foundation Phase curriculum*. PhD. Prifysgol De Cymru. Ar gael yn: https://pure.southwales.ac.uk/files/3987200/Amanda_Thomas_PhD_March2019_LS_E.pdf (Darllenwyd 15 Chwefror 2021)

UNICEF (2021) *Convention on the Rights of the Child*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.unicef.org/child-rights-convention/children-human-rights-explained> (darllenwyd 14 Chwefror 2021)

Vosniadou, S. (2001) *How Children Learn*. Geneva: International Academy of Education.

Vygotsky, L.S. (1978) *Mind in Society*. London: Harvard.

Wall, K. 2011. *Special Needs and Early Years: A Practitioner's Guide*. 3rd ed, London: SAGE Publications Ltd. Available at: <<http://www.doi.org/10.4135/9781473957862>>

Weiss, Mary & Harris, Sandra. (2001). Teaching Social Skills to People with Autism. *Behavior modification*. (25). tud.785-802. 10.1177/0145445501255007.

Wood, D. J., Bruner, J. S. and Ross, G. (1976) 'The role of tutoring in problem solving', *Journal of Child Psychiatry and Psychology*, 17(2), pp.89-100.

Atodiad 1**Proffil Disgybl**

Mae Alys* yn 9 mlwydd oed ac mae'n ddisgybl ym mlwyddyn 4. Mae gan Alys un brawd, Andy, sydd newydd symud lan i'r Ysgol Gyfun leol, Ysgol Bro Gadog*.

Mae Alys yn gweld hi'n anodd ffocysu mewn nifer o wersi, heb law am y gwersi creadigol fel cerddoriaeth a chelf. Mae'n casáu ysgol ac yn gweld hi'n anodd dod ymlaen gydag aelodau'r dosbarth. Mae gan Alys cynorthwydd 1:1 sydd yn gweithio'n agos gydag Alys er mwyn chefnogi hi cystal ag sy'n bosib, ond nid yw Alys yn barod i ryngweithio neu i wrando ar gyfarwyddion yr athrawes neu'r cynorthwydd.

Mae'r plant eraill yn y dosbarth yn ofni Alys oherwydd mae ganddi tueddrwydd o sgrechain a gwaeddu pan mae hi'n teimlo'n llethol. Mae rhieni Alys yn gefnogol ac wedi ceisio cefnogi Alys trwy fynd â hi i glybiau allgyrsiol fel bale, ond mae Alys dim yn ymateb yn dda i sefyllfaoedd newydd sydd ddim yn gyfarwydd.

Mae Alys ddim yn hoffi neu yn hapus i gymryd rhan mewn gwaith dosbarth, oni bai ei fod ar yr iPad gan ei bod yn cael problemau canolbwytio os yw'r gwaith ar y bwrdd gwyn. Mae Alys wedi cael diagnosis o awtistiaeth ers iddi fod yn blwyddyn 3, ond mae hi hefyd wedi cael diagnosis o ADHD. Mae hyn yn gwneud hi hyd yn oed mwy anodd i annog Alys i gwneud gwaith dosbarth, oherwydd mae ond moen gwneud beth mae hi eisiau gwneud a beth mae hi yn cal diddordeb mewn.

Datblygiad corfforol

- Mae Alys yn cael sgiliau dwylo dda a gafael da.
- Mae hi'n hyderus yn dal pethau, er enghraifft mae hi'n dda yn dal a rheoli brwsh paent.
- Gallu ysgrifennu mewn llawysgrifen
- Gallu reidio beic
- Gallu gwisgo'i hunain

Datblygiad gwybyddol

- Yn gallu cyfri yn ôl o 35 ond yn gweld hi'n anodd i cyfri yn ôl o rifau uwch.
- Gallu dilyn a cwblhau cyfarwyddiadau o dim mwy na 3/4 cyn i hi dechrau colli ffocws.
- Gallu defnyddio dyfeisiadau yn annibynol, fel iPad, heb unrhyw cymorth neu cyfarwyddiadau
- Gallu darllen a deall brawddegau lan i 10 geiriau
- Gallu adio a tynnu i ffwrdd lan nes 50

Datblygiad emosiynol

- Mae hi'n mynd yn drist ac yn teimlo'n rhwystriedig iawn pan fydd ei rheini'n dod a hi i ysgol. Mae hyn fel arfer yn para tan amser ginio.
- Mae hi'n cael ei siomi'n fawr os mae hi'n teimlo fel ei fod wedi cwblhau tasg yn anghywir neu dim yn cystal a unigolion arall yr dosbarth.
- Mae hi yn teimlo'n grac os mae'r cynorthwydd yn helpu dysgwr arall yn y dosbarth.

Datblygiad cymdeithasol

- Gweld hi'n anodd i cymryd rhan mewn tasgiau grŵp - tueddu mynd yn 'overwhelmed'
- Yn chwarae ar ben ei hun amser cinio
- Mwynhau gweithio yn annibynol
- Yn teimlo'n rhwystredig ac yn grac os oes rhaid iddi weithio gydag eraill

Datblygiad ieithyddol

- Gallu darllen llyfr mas yn uchel
- Yn gweld hi'n anodd i cyfarthrebu beth mae'n meddwl - gweld hi'n anodd i adeiladu brawddegau.
- Yn gallu deall brawddegau cymhleth mae pobl arall yn dweud i hi

Atodiad 2

Tabl o camau datblygu, llyfr 'Children's Care, Learning, and Development' (Tassoni et al., 2016. tud 15) .

Age	Social and emotional development
2 years	Enjoys other children's company but reluctant to share toys May show concern when another child is upset Engages in parallel play (alongside others) Remains egocentric Becoming emotionally stable, but still prone to mood swings Learning to separate from carer for short periods, for example while at nursery Knows own identity
3 years	Greater social awareness Will play in twos or threes, sharing ideas May have close friends A lot of mixed play of the sexes Stable and emotionally secure Friendly to other children Increasing in independence, but still needs support from adults Fears loss of carers Strong sense of gender identity Less anxious about separation Plays alongside others
4 years	Enjoys co-operative and dramatic play Understands co-operation and competition Responds to reasoning Can take turns Enjoys independence but still needs comfort and reassurance
5 years	Becomes engrossed in activities Develops fears of ghosts, things under the bed Concerned about being disliked Good sense of self awareness developed
6–7 years	Able to form firm friendships Very supportive of each other, playing complex games Plays in separate sex groups Fairly independent and confident Increasing sense of morality (right and wrong)
8–12 years	Friendships become very important – mostly same sex Concern at thoughts of others about them Often unsure about changes in settings
13–16 years	Body changes can upset self esteem Need to resolve changes into adulthood Some are more assured about changes in settings Wants to spend more time with friends than family Peer pressure a significant influence